# A470 Llanrwst Resurfacing - 02/03/22-01/04/22 (FAQs)

**What work is being done and why is it needed?**

- This section of the network was last resurfaced over 15 years ago and the road is in need of repair. The works will include the removal to a depth of 110mm (replacement of the surface course and underlying pavement layer).
- The completion of the work will also mean far fewer unplanned closures for emergency repairs, which are becoming ever more frequent.
- As part Ironwork (Gully covers / Manholes) within the section are being replaced with covers of increased depth improving their durability.

**Why is work being carried out at this time?**

Planning of the timing of works is always a challenge of balancing various factors such as

- periods of lower traffic volumes on that part of the network,
- coordination with other works elsewhere on the network,
- risk of adverse weather affecting the works.

**What is being done to minimise delay and disruption caused by this project?**

- To allow the works to be carried out safely and efficiently, between the 2nd of March and the 15th of March 2022 traffic traveling along the section of the A470 between Penloyn and Parry Road will be controlled by means of Traffic Lights.
- From 16th March 2022 a full closure of the A470 will be implemented between the junction of Parry Road and Pont Fawr with traffic diverted along Parry Road, Tal y Bont Road and School Bank Road (and vice versa)
- All works will be carried out between the hours of 07:00-01:00 with the noisier activities scheduled to be carried out during the day.
- All Abnormal loads over 3.0m will be prohibited from travelling along the local diversion route (Alternative route for Abnormal loads will be A5, A55 & A470)
- Arrangements will be in place to manage vehicle and pedestrian traffic along the local diversion route, this will include specific arrangements to allow safe access and egress to the local school, the local authority and emergency services offices.

- ‘Please drive carefully’ signs will be erected along the local diversion route.
- Parking restrictions will be implemented on the diversion route.
- Works have been programmed to take in to account the Livestock Market with no closures planned on the dates the market is operational.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Traffig Cymru
Traffic Wales

**Why are certain phases of the works being carried out under a full road closure with a diversion?**

- The first two weeks of these works are being undertaken with temporary traffic lights and convoy working (From Penloyn to Parry Road).

- Due to the geometry of the carriageway between Parry Road and Pont Fawr (i.e. insufficient carriageway width to allow a safe working zone and accommodate traffic), the remainder of the work requires full carriageway closures.

**Why can't the work be done with over-night closures only?**

- Carrying out the works overnight only would result in a longer works programme prolonging the noise disturbance caused to residents.

**Will the works create a noise nuisance for residents?**

- Unfortunately, as with any construction project, there is a certain amount of noise emission that cannot be avoided.
- However, the noisiest activities are planned to take place during the day time and contractor every effort to minimise noise during the night as far as is practicable.

**Will residents still be able to access their properties within the closure?**

- Pedestrian access and egress to the properties will be maintained at all times.
- In liaison with Hogan Construction arrangements will be made to allow deliveries and vehicular access for local properties.

# Ail-wynebu’r A470 yn Llanrwst - 02/03/22 01/04/22 (Cwestiynau Cyffredin)

**Pa waith sy'n cael ei gyflawni, a pham fod ei angen?**

- Mae mwy na phymtheg mlynedd ers i'r rhan hon o'r rhwydwaith gael ei hwynebu ddiwethaf ac mae angen ei hatgyweirio. Bydd y gwaith yn cynnwys tynnu'r wyneb hyd at ddyfnder o 110mm (gosod cwrs arwyneb newydd a haen palmant gwaelodol).
- Yn ogystal, o gwblhau'r gwaith bydd llawer llai o achlysuron lle mae angen cau'r lôn i wneud gwaith trwsio brys, sydd yn digwydd yn llawer amlach.
- Gan fod y Gwaith Haearn yn y rhan hon (Gorchuddion gyli / Tyllau Dyn) yn cael eu newid am orchuddion dyfnach i sicrhau eu bod yn para'n well.

**Pam fod y gwaith yn cael ei gynnal nawr?**

Mae cynllunio amserlen gwaith wastad yn her o ran cydbwyso amryw ffactorau megis

- cyfnodau o lefelau traffig is ar y rhan honno o'r rhwydwaith,
- cydlynu gyda gwaith sy'n cael ei gynnal mewn mannau eraill ar y rhwydwaith,
- y bygythiad y gall tywydd garw effeithio ar y gwaith.

**Beth sy'n cael ei wneud i leihau'r oedi a'r tarfu a achosir gan y prosiect hwn?**

- Er mwyn i'r gwaith fynd rhagddo'n ddiogel ac yn effeithiol, rhwng 2 Mawrth a 15 Mawrth 2022 bydd y traffig sy'n teithio ar hyd rhan o'r A470 rhwng Penloyn a Ffordd Parry yn cael ei reoli gan Oleuadau Traffig.
- O 16 Mawrth 2022, bydd yr A470 yn cael ei chau'n llwyr rhwng cyffordd Ffordd Parry a Phont Fawr a bydd y traffig yn cael ei wyro ar hyd Ffordd Parry, Ffordd Tal y Bont a Ffordd Tan yr Ysgol (ac i'r gwrthwyneb)
- Bydd yr holl waith yn cael ei gynnal rhwng 07:00 a 01:00 a threfnir i'r gweithgareddau mwyaf swnllyd gael eu cynnal yn ystod y dydd.
- Caiff pob llwyth annormal dros 3.0m eu gwahardd rhag teithio ar hyd llwybr y gwyriad (bydd llwythi annormal yn teithio ar yr A5, yr A55 a'r A470)
- Bydd trefniadau ar waith i reoli traffig cerbydau a cherddwyr ar hyd y llwybr gwyro lleol, bydd hyn yn cynnwys trefniadau penodol i alluogi mynd i mewn ac allan yn ddiogel o'r ysgol leol, yr awdurdod lleol a swyddfeydd y gwasanaethau brys.

- Bydd arwyddion 'Gyrrwch yn ofalus' yn cael eu codi ar hyd llwybr y gwyriad lleol.
- Bydd cyfyngiadau parcio yn cael eu gweithredu ar lwybr y gwyriad.
- Mae'r gwaith wedi cael ei raglennu i ystyried y Mart ac ni fwriedir cau'r lôn yn llwyr pan fydd y mart yn cael ei gynnal.

**Pam fod rhai camau o'r gwaith yn cael eu cynnal wrth gau'r ffordd yn llwyr a llwybr gwyro yn cael ei ddefnyddio?**

- Mae pythefnos cyntaf y gwaith yn mynd i gael ei gynnal gyda goleuadau traffig dros dro a defnyddio confoi (o Penloyn i Ffordd Parry).
- Oherwydd geometreg y gerbydlon rhwng Ffordd Parry a Phont Fawr (h.y. nid yw lled y gerbydlon yn ddigonol i sicrhau man diogel i weithio a digon o le i'r traffig), bydd angen cau'r ffordd yn llwyr i gynnal gweddill y gwaith.

**Pam na ellir gwneud y gwaith trwy gau lonydd dros nos yn unig?**

- Byddai cynnal y gwaith dros nos yn unig yn creu rhaglen waith hwy fydd yn ymestyn yr aflonyddwch sŵn a achosir i drigolion.

**A fydd y gwaith yn achosi llawer o niwsans sŵn i drigolion?**

- Yn anffodus, gydag unrhyw brosiect adeiladu, mae rhywfaint o allyriadau sŵn nad oes modd eu hosgoi.
- Fodd bynnag, bydd y gweithgareddau mwyaf swnllyd yn cael eu cynnal yn ystod y dydd a bydd y contractwr yn gwneud pob ymdrech i leihau sŵn yn ystod y nos cyhyd ag y bo'n ymarferol bosib.

**A fydd y trigolion yn medru cael mynediad i'w heiddo pan fydd y ffordd wedi cau?**

- Bydd mynediad ar droed i'r eiddo yn cael ei gynnal bob amser.
- Ar y cyd â Hogan Construction bydd trefniadau ar waith i alluogi derbyn cyflenwadau a mynediad i gerbydau ar gyfer eiddo lleol.